# AR OSOD


## HEN YSTAFELLOEDD NEWID -
## CEISIO DATGANIADAU O DDIDDORDEB AT DDEFNYDD CYMUNEDOL ADDAS

029 2037 8921
fletchermorgan.co.uk
25 Park Place, Cardiff CF10 3BA



Fletcher Morgan

# Hen Ystafelloedd Newid, Heol y Delyn, Caerdydd CF14 0SR




Fletcher Morgan

RICS

Nid yw Fletcher Morgan a'r Gwerthwr/Landlord yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw gamgymeriad, camddatganiad neu hepgoriad yn y manylion hyn. Bras yw'r mesuriadau ac at ddiben rhoi canllaw yn unig. Nid yw'r manylion hyn yn llunio unrhyw gynnig na chontract ac nid oes gan Fletcher Morgan neu unrhyw un y maent yn ei gyflogi unrhyw awdurdod i wneud unrhyw sylw na gwarant mewn perthynas â'r eiddo.

029 2037 8921 fletchermorgan.co.uk @FletcherMorgan /FletcherMorgan 25 Park Place Cardiff CF10 3BA

## Lleoliad

Maestref 5 milltir i'r gogledd o Gaerdydd yw Llys-faen, sydd â naws pentref gwledig gan ei bod wedi'i hamgylchynu gan gefn gwlad.

Yn Llys-faen mae siop leol, ysgol gynradd, llyfrgell, parc, meithrinfa, eglwys blwyf, dwy dafarn, Neuadd Sgowtiaid a Neuadd Gymunedol.

Mae'n hawdd cyrraedd yr M4 wrth gyffordd 30, 3 milltir i'r dwyrain, ac mae gorsaf reilffordd Llys-faen a'r Ddraenen, sydd 15 munud i ffwrdd ar droed, yn gwasanaethu'r ardal. Mae yna wasanaethau bws rheolaidd hefyd.

## Disgrifiad

Mae'r hen ystafelloedd newid wedi'u lleoli ger Neuadd y Sgowtiaid a Grŵp Meithrin Treetops ym Mharc Heol y Delyn.

Mae lleoedd parcio ceir am ddim ar gael yn yr ardal gyfagos.

Rydym ar ddeall nad oes nwy ar gael, a bod unrhyw goginio neu wresogi yn cael ei bweru gan gyflenwad trydan.

## Adeilad

Mae'r ardaloedd hyn yn destun gwirio ar y safle yn unol â Chod Ymarfer Mesur diweddaraf RICS.

**Llawr Gwaelod = Tua 890 troedfedd sgwâr. | 82.68 metr sgwâr**

**Ar safle ag arwynebedd o 0.07 erw**

## Ardrethi

**Nid oes unrhyw adrethi'n daladwy ar yr eiddo hwn.**

## Deiliadaeth

Mae'r eiddo dan sylw ar gael ar sail Trwsio ac Yswirio Llawn.

## Cynnig

Rydym yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb at ddefnydd cymunedol. Mae'r Cyngor yn barod i gynnig telerau hyblyg i'r parti newydd ond ar sail lesddaliad yn unig.

Dylai unrhyw gynnig a gyflwynir ddarparu gwybodaeth lawn am sail gyfreithiol y feddiannaeth a'r elfennau ariannol cysylltiedig.

Dylai'r cynnig gynnwys cefndir i'r feddiannaeth arfaethedig, y defnydd arfaethedig, cynllun busnes (os yw ar gael), gwaith arfaethedig i'r safle ac unrhyw gyllid a sicrhawyd.

## Cynllunio

Bydd unrhyw gynllun amgen a ddefnyddir yn destun cais cynllunio newydd ac unrhyw ymgynghoriad arall sy'n ofynnol.

## Y broses

Ar gyfarwyddyd Cyngor Caerdydd, ceisir datganiadau o ddiddordeb drwy broses dendro anffurfiol i ddod i law erbyn diwedd y diwrnod busnes ar 31 Gorffennaf 2025 fan bellaf.

## Tystysgrif Perfformiad Ynni

Ar gais

## TAW

Mae'r holl ffigyrau heb gynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol.

## Costau

Bydd pob parti yn ysgwyddo ei gostau cyfreithiol a phroffesiynol ei hun, yr eir iddynt yn ystod y trafodiad.

Mae Fletcher Morgan wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Reoliadau Gwyngalchu Arian 2017, Deddf Enillion Troseddau 2002, Deddf Terfysgaeth 2000 a deddfwriaeth berthnasol arall, at ddibenion brwydro yn erbyn gwyngalchu arian a chyllido terfysgaeth.




ar gyfarwyddiadau Cyngor Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD

## CYSWLLT

Matthew Jones

029 2034 7054

07968 769325

/MatthewJones

matthew.jones@fletchermorgan.co.uk

Fletcher Morgan

RICS

Nid yw Fletcher Morgan a'r Gwerthwr/Landlord yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw gamgymeriad, camddatganiad neu hepgoriad yn y manylion hyn. Bras yw'r mesuriadau ac at ddiben rhoi canllaw yn unig. Nid yw'r manylion hyn yn llunio unrhyw gynnig na chontract ac nid oes gan Fletcher Morgan neu unrhyw un y maent yn ei gyflogi unrhyw awdurdod i wneud unrhyw sylw na gwarant mewn perthynas â'r eiddo.
26/06/2025